



Chartered
Institute of
Housing
Cymru

Beth mae angen i chi ei wybod am y fframwaith canlyniadau ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd

Mehefin 2023



Beth mae angen i chi ei wybod am y fframwaith canlyniadau ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd



Chartered
Institute of
Housing
Cymru

Cefndir

Roedd rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i ddiwygio cyfraith tai a diwygio gwasanaethau digartrefedd i ganolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym. Mae hyn yn cyfeirio gweledigaeth Llywodraeth Cymru o Gymru lle gall pawb gael cartref diogel sy'n diwallu eu hanghenion ac yn cefnogi bywyd iach, llwyddiannus a llewyrchus. Cymru lle rydym yn cydweithio i atal digartrefedd a, lle na ellir atal digartrefedd, sicrhau ei fod yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto.

Mae'r fframwaith canlyniadau ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd wedi'i ddatblygu i ddarparu cyfeiriad strategol ar gyfer atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Bydd yn gwneud hyn drwy nodi'r canlyniadau tymor hir a ddymunir ac yn dangos cynnydd tuag at gyflawni'r rhain trwy ddangosyddion data a fydd yn mesur cynnydd.

Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar y canlyniadau strategol trosgynnol, y canlyniadau manwl sy'n sail i'r canlyniadau strategol a'r dangosyddion data. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn ystyried yr effaith ar y Gymraeg a'r cyfleoedd y mae'n eu darparu i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Sut y caiff y fframwaith canlyniadau ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd ei ddefnyddio

Mae Llywodraeth Cymru yn anelu at gyhoeddi'r fframwaith rhoi diwedd ar ddigartrefedd terfynol yng ngaeaf 2023 ochr yn ochr â'r ymateb i'r ymgynghoriad. Yn gynnar yn 2024 caiff adroddiad gwaelodlin ei gyhoeddi i adlewyrchu'r dangosyddion data cytunedig terfynol. Caiff diweddariad blynyddol ei gyhoeddi yn erbyn yr adroddiad gwaelodlin fel y gellir mesur cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau manwl.

Bydd y fframwaith canlyniadau ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn darparu naratif clir o ble mae cynnydd wedi'i wneud o ran cyflawni'r canlyniadau hirdymor. Bydd hefyd yn cyfeirio cynigion polisi yn y dyfodol. Bydd y fframwaith yn parhau i esblygu dros amser i sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn ymatebol i'r hinsawdd weithredu ac argaeledd data. Gan ddilyn y diwygiadau polisi a deddfwriaethol sydd ar ddod bydd y fframwaith yn cael ei dderbyn er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n parhau'n berthnasol o ran darparu tystiolaeth o gynnydd tuag at roi diwedd ar ddigartrefedd ar draws Cymru.

Y fframwaith canlyniadau ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd arfaethedig

Bydd y canlyniadau strategol, y canlyniadau manwl a'r dangosyddion data yn bwydo i mewn i'w gilydd fel a ganlyn:



Y canlyniadau strategol

At ei gilydd mae chwe maes o ganlyniadau strategol. Mae'r canlyniadau'n cofnodi themâu allweddol yn y cynllun gweithredu rhoi diwedd ar ddigartrefedd i sicrhau bod digartrefedd yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto. Maent hefyd yn sail i egwyddorion polisi. Mae'r diagram canlynol yn amlinellu'r canlyniadau strategol.

Gellir dod o hyd i fanylion llawn sail resymegol pob un o'r canlyniadau strategol hyn a sut maent yn cyd-fynd â'r cynllun gweithredu rhoi diwedd ar ddigartrefedd [yma](#) ochr yn ochr â rhestr arfaethedig o ddangosyddion data.



Barn gychwynnol CIH Cymru

Yn CIH rydym yn croesawu'r cyfle i roi ein barn ar y fframwaith canlyniadau ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd arfaethedig. Bydd y ffynonellau data ychwanegol sydd yn y fframwaith yn helpu i gyfeirio ein gwybodaeth am ddigartrefedd yng Nghymru. Bydd yn ein galluogi i werthuso gweithrediad y cynllun gweithredu lefel uchel ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd a sut mae'r holl randdeiliaid yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod digartrefedd yng Nghymru yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto.

Mae'r fframwaith canlyniadau ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd hefyd yn cynnwys canlyniadau manwl ar adeiladu gweithlu digartrefedd a chymorth tai gwydn sy'n cael ei werthfawrogi. Edrychwn ymlaen at gydweithio â chi, ein haelodau, fel rhan o'r canlyniad hwn gan sicrhau bod lleisiau'r rhai sy'n gweithio yn y sector yn cael eu clywed.

Mwy o wybodaeth

Os hoffech gysylltu â ni ynglŷn â'r papur briffio hwn neu roi eich barn fel rhan o'n hymateb i'r ymgynghoriad, cysylltwch â Cerys Clark ein rheolwr polisi a materion cyhoeddus yn cerys.clark@cih.org.